
ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

# DEWIS PRIFFORDD 2: LLWYBR GORLLEWINOL

Aliniad gorllewinol yw Dewis Priffordd 2 a fyddai'n cysylltu o ychydig i'r de o Gyffordd 34 yr M4 hyd at yr A48 yn Sycamore Cross. Byddai'r rhannau gogleddol a deheuol yn cynnwys gwelliannau ar y ffordd bresennol. Bydd gweddill y llwybr rhwng y ddwy gyffordd hyn oddi ar y ffordd bresennol ac yn mynd heibio i ochr orllewinol pentref Pendeulwyn.


## Prif Nodweddion

| | |
|---|---|
| Hyd y Ffordd Osgoi Newydd | 5,691m |
| Cydbwysedd Torri a Llenwi | Mewnforio 97,000m³ |
| Effeithiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus | 1 Bont 3 Chwlfert |
| Nifer y Strwythurau | 4 |
| Hyd y Gorlifdir yr Effeithir arno | 100m |
| Cyfanswm y Gost | £56.666m |
| Costau Cynnal a Chadw | Yn is o bosibl na'r aliniad dwyreiniol, ond os defnyddir yr arglawdd ar yr aliniad dwyreiniol, mae mwy o strwythurau i'w cynnal ar yr aliniad gorllewinol. |





## Materion Allweddol

- Byddai'r ffordd yn osgoi cymunedau presennol Pendeulwyn a Chlawdd Coch.
- Byddai'r llwybr fel y'i dangosir yn effeithio ar naw eiddo ar amcangyfrif, yn amodol ar gynllun mwy manwl.
- Byddai Coetir Hynafol yn cael ei effeithio i ryw raddau, er bod yr aliniad yn ceisio cyfyngu ar yr effeithiau i ymylon y coetiroedd.
- Mae posibilrwydd y gallai fod rhywogaethau a ddiogelwyd ar hyd y llwybr.
- Mae'n bosibl y gallai nodweddion archeolegol wedi eu claddu ychwanegu amser a chost at unrhyw gynllun a gallent effeithio ar aliniadau llwybr.




*Cyfyngiadau amgylcheddol*




*Cyfyngiadau llifogydd ac adeiladau â effeithir*

## Gwella Trafnidiaeth Strategol yn Amgylchynu Coridorau ar gyfer Cyffordd 34 yr M4 i'r A48 gan gynnwys Coridor Pendeulwyn

Cam Dau WelTAG: Achos Busnes Amlinellol

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG